Annwyl Cyfarwyddwr

**Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol**

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae’r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Powys yn y ffordd y mae’n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan ein harolygiad o wasanaethau plant ym mis Hydref 2018 a gweithgarwch monitro yn y gwasanaethau plant ac oedolion ym mis Gorffennaf 2018, mis Tachwedd 2018 a mis Chwefror 2019. Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 16 Ebrill 2019.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella

- Lles

Mae creu a chynnal gweithlu parhaol o fewn gwasanaethau plant yn parhau i fod yn her fawr. Er bod uwch-reolwyr wedi gwneud ymdrech sylweddol i recriwtio, mae trosiant parhaus wedi amharu ar effaith yr ymdrechion hyn ar leihau nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir. Yn ystod y misoedd diwethaf, roedd problemau staffio wedi gwneud tîm asesu newydd yn anghynaliadwy a bu'n rhaid diddymu'r tîm dros dro. Er nad yw recriwtio a chadw staff yn fater mor fawr yn y gwasanaethau oedolion, mae anawsterau recriwtio darparwyr gofal cartref yn cael effaith ar gapasiti yn y sector.

Mae uwch-reolwyr wedi dweud wrthym eu bod yn deall y flaenoriaeth i ymgysylltu â staff a'u bod wedi sefydlu llinellau cyfathrebu gwell. Mae staff yn llawer mwy tebygol nawr o gael eu goruchwylio'n rheolaidd gan eu rheolwyr llinell, ond mae gostyngiad mewn perfformiad yn ddiweddar yn dangos bod yn rhaid parhau i roi sylw i hyn. Ar y lefel uchaf, mae tîm rheoli parhaol bellach ar waith ac mae camau'n cael eu cymryd i recriwtio uwch-reolwyr. Mae hwn yn welliant sylweddol o ystyried bod tri Phennaeth Gwasanaethau Oedolion (dros dro) yn ystod y flwyddyn. Mae arweinyddiaeth sefydlog yn sicr wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol eleni.

Mae'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd wedi parhau i gynnig mwy o drosolwg corfforaethol a gallu craffu drwy gydol y flwyddyn a daeth Prif Weithredwr parhaol yn ei swydd ym mis Chwefror 2019. Gwelsom ddiwylliant ac ymarfer sicrhau ansawdd yn dechrau blaguro yn ystod y flwyddyn, yn enwedig o fewn gwasanaethau oedolion. Mae'r awdurdod lleol wedi cynhyrchu ystod dda o wybodaeth rheoli perfformiad o gronfa ddata System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sy'n gwella trosolwg uwch-reolwyr a'u gallu i fonitro perfformiad.

Gwnaethom godi pryderon am ymateb gwael Cyngor Sir Powys i gwynion. Cawsom ein hysbysu fod staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol a bod uwch-reolwyr yn sicrhau trosolwg mwy gweithredol. Byddwn yn adolygu'r ffordd y caiff cwynion eu trin unwaith eto eleni.

Wrth arolygu, gwelsom nad oedd y weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau plant wedi'i diffinio'n dda. Mae gwasanaethau plant yn cael eu hailstrwythuro ar hyn o bryd, a chaiff cynllun y gwaith hwn ei egluro'n dda gan Bennaeth y Gwasanaeth ac mae'n seiliedig ar ddealltwriaeth gydlynol o'r gwasanaethau a sbardunau deddfwriaethol presennol. Y bwriad yw sicrhau y gall pobl gael gafael yn well ar gyngor a chymorth cyn gynted â phosibl a chael cymorth yn amlach gan adnodd cymunedol, y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn ymwybodol o gynlluniau i wella'r hyn a gynigir i deuluoedd a pharhau i gyflwyno dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau i blant a theuluoedd. Dylai hyn roi cyfleoedd i sicrhau mwy o gysondeb proffesiynol rhwng asiantaethau partner.

Fodd bynnag, mae heriau sylweddol i'w hwynebu o ran adnoddau, partneriaethau presennol a newid diwylliant y bydd angen i uwch-reolwyr a staff eu goresgyn er mwyn sicrhau bod y newid hwn i'r system gyfan yn cael ei roi ar waith a'i fod yn gynaliadwy.

Yn gyffredinol, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran amseroldeb ei asesiadau o blant. Mae Cyngor Sir Powys yn adrodd ar asesiadau a gwblheir o fewn

amserlenni byrrach, yn hytrach na mesur pob asesiad yn erbyn yr amserlen fwyaf ac mae hyn yn arfer da.

Mae mwy o blant yn destun gorchmynion gofal ym Mhowys nawr nag yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae uwch-reolwyr wedi sicrhau bod pob plentyn mewn lleoliadau preswyl yn cael adolygiad er mwyn canfod pa blant y gellid eu lleoli yn agosach i gartref. Mae'n ymddangos nad yw'r strategaeth hon wedi cael effaith eto, gan fod un o bob tri phlentyn sy'n derbyn gofal yn parhau i fod mewn lleoliadau y tu allan i'r sir ar ddiwedd y flwyddyn.

Er gwaethaf y pwyslais mawr a roddir ar bwysigrwydd sicrhau bod ymarferwyr yn gweld plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn rheolaidd, mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella. Rydym yn cydnabod bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud, ond mae mwy i'w wneud o hyd. Yn achos plant sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid i reolwyr sicrhau bod gan bob plentyn gynllun gofal a chymorth cyfredol.

Pan wnaethom gwblhau gwaith monitro o fewn gwasanaethau oedolion ym mis Tachwedd 2018, gwelsom asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth a oedd yn dda ac yn ardderchog yn ein barn ni, am eu bod yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Fodd bynnag, ni wnaethom nodi gwelliannau'n gyson ac felly nid oedd modd gwybod faint a oedd wedi newid ers yr arolygiad ym mis Ionawr 2018.

Gwelsom fod oedi a diffygion yn y gwasanaethau a ddarperir yn effeithio'n fawr ar bobl. Roedd yr amser yr oedd yn rhaid i bobl aros am asesiad yn effeithio arnynt, yn enwedig y rhai a oedd yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae uwch-reolwyr o'r farn bod nifer y bobl sy'n profi oedi yn yr ysbyty am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol yn annerbyniol ac mae adolygiad o'r gwasanaeth ailalluogi wedi cael ei lansio.

Mae gennym bryderon am y nifer fawr o bobl nad yw eu cynllun gofal a chymorth wedi cael ei adolygu. Ni allwn fod yn siŵr, felly, fod y gofal a'r cymorth a ddarperir gan wasanaethau oedolion yn briodol. Bydd yr awdurdod lleol am fodloni ei hun bod y gwasanaethau a gynigir yn cyfrannu at y canlyniadau y mae pobl am eu cyflawni a'u bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Rydym wedi trafod y diffyg sylweddol yn y ddarpariaeth gofal cartref gydag uwch-reolwyr. Mae nifer o ddarparwyr gofal wedi rhoi'r gorau i weithredu ym Mhowys yn ystod y flwyddyn ac er bod darparwyr eraill wedi ymdrechu i ymdrin â hyn, mae hyn wedi gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn anodd. Heb os, mae pobl ym Mhowys yn cael eu heffeithio'n negyddol oherwydd nad oes digon o wasanaethau gofal cartref. Mae adnodd therapi galwedigaethol ychwanegol yn cael ei ystyried er mwyn adolygu'r lefelau o gymorth gofal cartref a ddarperir ac rydym wedi cael gwybod ei bod hi'n anodd sicrhau darpariaeth ychwanegol.

Mae cyfran gymharol uchel o bobl ym Mhowys yn defnyddio'r system taliadau uniongyrchol. Rydym wedi awgrymu y dylai'r awdurdod lleol atgoffa staff a rheolwyr bod taliadau uniongyrchol yn werthfawr am eu bod yn rhoi mwy o reolaeth a hyblygrwydd i bobl dros eu trefniadau. Nid yw'r system ar waith i wneud iawn am y diffyg gofal cartref sydd ar gael drwy'r awdurdod lleol.

- Pobl – llais a dewis

Gwnaethom adolygu arweinyddiaeth, cyfeiriad a chynnydd yr awdurdod lleol wrth ymwreiddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau rheng flaen fel rhan o weithgareddau arolygu a gwerthuso perfformiad blynyddol. Mae Cyngor Sir Powys yn cael peth trafferth i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn golygu nad oes gan y gwasanaeth cyswllt cyntaf ar gyfer gwasanaethau oedolion siaradwr Cymraeg, ond mae trefniant ar waith i ddefnyddio staff o dîm arall. Mae cyfleoedd da i staff Cyngor Sir Powys gael gwersi Cymraeg er mwyn eu helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg ar bob lefel.

Yn ystod ein gwaith, gwnaethom nodi bod adroddiadau a ysgrifennwyd gan weithwyr cymdeithasol ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant yn aml yn amlinellu dadansoddiad trylwyr o wybodaeth a'u bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd amseroldeb cofnodion cyfarfodydd wedi gwella yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oedd adroddiadau bob amser yn cael eu hanfon at rieni yn ddigon cynnar i'w galluogi i gymryd rhan ystyrlon yn nhrafodaethau'r cyfarfod. Rydym yn disgwyl y bydd uwch-reolwyr yn ceisio mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau y gall plant a'u teuluoedd gymryd rhan deg mewn cyfarfodydd pwysig sy'n cael effaith mor fawr arnynt.

Ym mis Gorffennaf 2018, nodwyd gennym nad oedd y swyddogion diogelu ar gyfer oedolion mewn perygl yn hyderus wrth gwblhau asesiadau galluedd. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod hyfforddiant perthnasol wedi cael ei roi ac y gall swyddogion nawr asesu, yn y rhan fwyaf o achosion, p'un a oes gan unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad penodol. Gwelsom fod y rhai sy'n rheoli'r broses ddiogelu yn annhebygol o gynnwys y person neu'r teulu yn y broses honno. Nid ydym yn gwybod sut y gall Rheolwyr Arweiniol Dynodedig wybod beth yr hoffai pobl ei gyflawni os nad ydynt wedi cyfathrebu â'r person na'i deulu. Byddwn yn ystyried a fu gwelliannau mewn ymarfer mewn gwaith pellach.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Partneriaethau

Mae lle sylweddol o hyd i ddatblygu gwaith partneriaeth rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r Prif Weithredwr yn cadarnhau ei bod wedi ceisio gwella gwaith partneriaeth ers iddi ddechrau yn y swydd. Bydd gwasanaethau mwy cydlynol yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Powys, yn lleihau dyblygu ac yn darparu gwasanaethau mwy cynaliadwy.

Mae presenoldeb uwch-reolwyr yng nghyfarfodydd y byrddau diogelu rhanbarthol wedi gwella ac maent yn chwarae rhan fwy gweithredol ynddynt. Deallwn fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau proffesiynol ar gyfer gwaith rhanbarthol ym maes mabwysiadu a maethu. Bydd Cyngor Sir Powys yn elwa drwy barhau i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill, derbyn cymorth, rhannu arfer gorau a chael budd o waith a gaiff ei gwblhau mewn mannau eraill er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Mae'r Prif Weithredwr yn hyderus y bydd y strwythur uwch-reoli sefydlog sydd bellach ar waith yn hyrwyddo'r agenda integreiddio a chydweithio ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion.

Er mwyn i'r pwyslais cynyddol ar gymorth cynnar i blant a theuluoedd fod yn llwyddiannus, rhaid comisiynu mwy o waith a chydweithio mwy â'r trydydd sector. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r Ganolfan Cymorth Cynnar yn y Drenewydd. Mae mwy o blant yn dal i ymuno â'r system gofal a chymorth wedi'i chynllunio ar ôl cael asesiad nag sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth cynnar a dylai'r cynnydd yn yr opsiynau i deuluoedd effeithio ar hyn.

Mae gennym bryderon am faint y mae Cyngor Sir Powys yn ymgysylltu â darparwyr cartrefi plant annibynnol ym Mhowys. Mae hwn yn faes â blaenoriaeth i'r awdurdod lleol, o ystyried nifer y plant sy'n parhau i fod mewn lleoliadau ymhell o'u hardaloedd.

Mae adolygiad o wasanaethau ailalluogi yn cael ei gynnal er mwyn ystyried eu heffeithiolrwydd wrth hyrwyddo annibyniaeth pobl. Mae oedi cyn cael cymorth ailalluogi yn cael effaith fawr ar bobl sy'n aros mewn ysbytai a chartrefi gofal. Deallwn fod cynlluniau ar y gweill i gynyddu presenoldeb gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai er mwyn gwella cynlluniau rhyddhau, cryfhau'r ymateb amlasiantaethol er mwyn atal derbyniadau diangen a chyflymu prosesau eraill er mwyn gwella cymorth yn y cartref.

- Atal

Mae'n siomedig nodi y cafodd llai o asesiadau amddiffyn plant eu cwblhau mewn pryd dros y misoedd diwethaf, ar adeg pan gafodd llai o asesiadau eu cynnal yn gyffredinol. Mae uwch-reolwyr wedi ceisio sicrhau bod mwy o wybodaeth amlasiantaethol yn cael ei rhannu cyn penderfynu bod angen cynnal ymchwiliad ffurfiol. Yn y cyd-destun hwn, mae lleihad yn nifer yr ymchwiliadau diangen yn gadarnhaol ac yn lleihau'r effaith ar deuluoedd. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am berfformiad diweddar yn awgrymu bod cyfle mawr o hyd i rannu gwybodaeth yn ystod cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Plant yn bwriadu datblygu'r materion hyn ymhellach.

Gwnaethom godi pryderon â Chyngor Sir Powys am y ffordd y mae'n amddiffyn plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2018. Mewn ymateb, gwyddom fod uwch-reolwyr yn awyddus i sicrhau mwy o arbenigedd a chapasiti i ddatblygu staff a rheolwyr gweithredol.

Mae Cyngor Sir Powys yn cwblhau bron pob un o'i ymholiadau cychwynnol am amddiffyn oedolion o fewn yr amser gofynnol, sy'n golygu ei fod wedi gwella yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Tachwedd 2018, gwelsom y gellid defnyddio cysylltwyr cymunedol yn fwy effeithiol. Mewn rhai achosion, roeddem yn teimlo y gallai rheolwyr wybod mwy am adnoddau cymunedol a gwerth cyfeirio pobl at wasanaethau anstatudol. Mae Cyngor Sir Powys wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cysylltwyr cymunedol a gwnaethom adolygu'r gwasanaeth ym mis Mai 2019. Er bod hyn y tu allan i gwmpas y llythyr blynyddol hwn gan ei fod yn digwydd yn 2019/20, rydym wedi rhannu adborth bod y model gweithredu gwasgarog yn boblogaidd ymysg y rhai y gwnaethom siarad â nhw a bod cysylltwyr cymunedol yn uchel eu parch, ond efallai nad yw'r farn hon yn cael ei rhannu ar draws yr awdurdod lleol.

Mae uwch-reolwyr gwasanaethau oedolion yn frwdfrydig am y posibilrwydd y gallai technoleg gynorthwyol wella mynediad a chymorth i bobl a lleihau'r galw am wasanaethau gofal cartref. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn dilyn yr un agenda ac rydym yn gobeithio y bydd cydweithio yn arwain at arbedion effeithlonrwydd.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn, ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiadau thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Rydym wedi cwblhau gwaith monitro ym mis Mai 2019 ar wasanaeth newydd ASSIST a byddwn yn edrych ar y cymorth a roddir i'r rhai sy'n gadael gofal ym mis Mehefin 2019. Bydd AGC yn ystyried cynnal arolygiad dilynol o wasanaethau oedolion cyn diwedd 2019 a bydd yn hysbysu'r Cyfarwyddwr am hyn maes o law. Byddwn yn parhau i adolygu perfformiad drwy weithgareddau monitro rheolaidd.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir

Sharon Eastlake
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn